

Hysbysiad o Gynnig

GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT (Y FARCHNAD, Y FFLINT) (TROAD GORFODOL I'R CHWITH) 20-

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnig gwneud Gorchymyn, dan Adrannau 1 (1) a (2) a 2 (1) i (3) a Rhan III Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a'i effaith fydd:

Bydd pob person sydd yn achosi neu ganiatáu cerbyd i deithio i gyfeiriad y de orllewin ar y ffordd fynediad rhwng tafarn The Ship a Neuadd y Dref, a elwir Y Farchnad, Fflint, ac eithrio derbyn cyfarwyddyd neu ganiatâd cwnstabl yr heddlu mewn lifrai, yn achosi neu ganiatáu i'r cerbyd hwnnw droi i'r chwith i A548 Stryd Treffynnon, Y Fflint ar ôl cyrraedd cyffordd y ffordd fynediad ac A548 Stryd Treffynnon.

Gellir cael copi o'r Hysbysiad, y Gorchymyn arfaethedig, y cynlluniau sy'n dangos y ffyrdd yr effeithir arnynt, a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig y Gorchymyn yn ystod oriau swyddfa arferol Sir y Fflint yn Cysylltu, Stryd yr Eglwys, Y Fflint CH6 5BD a Chyngor Sir y Fflint, Depo Alltami, Ffordd yr Wyddgrug, Alltami, Sir y Fflint CH7 6LG yn ystod oriau swyddfa.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â'r rhesymau dros wrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod erbyn 14 Chwefror 2020, gan ddyfynnu cyfeirnod SS/TRO/IB/NW/CLT.

Dyddiedig y 24^{ain} diwrnod o Ionawr 2020



Stephen O Jones,
Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint
CH7 6NF

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT
(MARKET SQUARE / Y FARCHNAD, FFLINT)
(GORFOD TROI I'R CHWITH) 20-**

**Stephen O Jones,
Prif Swyddog
(Strydwedd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint,
CH7 6NF**

GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT
(MARKET SQUARE / Y FARCHNAD, FFLINT)
(GORFOD TROI I'R CHWITH) 20-

Mae Cyngor Sir y Fflint, wrth ddefnyddio'i bwerau dan adrannau 1 (1) a 2 a 2 (1) i (3) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("Deddf 1984") fel y'i diwygiwyd, a phob pŵer galluogi arall, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu, yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, trwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif, yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.
2. Bydd pob person sydd yn achosi neu ganiatáu cerbyd i deithio i gyfeiriad y de orllewin ar y ffordd fynediad rhwng tafarn The Ship a Neuadd y Dref, a elwir Y Farchnad, Fflint, ac eithrio derbyn cyfarwyddyd neu ganiatâd cwnstabl yr heddlu mewn lifrai, yn achosi neu ganiatáu i'r cerbyd hwnnw droi i'r chwith i A548 Stryd Treffynnon, Y Fflint ar ôl cyrraedd cyffordd y ffordd fynediad ac A548 Stryd Treffynnon.
3. Mae'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a roddir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at, ac nid yn amhariad ar, unrhyw gyfyngiad neu ofyniad sy'n berthnasol dan unrhyw reoliadau a wnaed neu sy'n cael effaith fel pe baent wedi'u gwneud dan Ddeddf 1984, neu gan neu dan unrhyw ddeddfiad arall.
4. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.
5. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar a
gellir ei alw'n Orchymyn Cyngor Sir y Fflint (Market Square / Y Farchnad, Y Fflint)
(Gorfod Troi i'r Chwith) 20-

Gosodwyd SÊL GYFFREDIN)

CYNGOR SIR Y FFLINT)

yn y fan hon)

ar y xx diwrnod hwn o xxxxxxxxxxxx 20--)

ym mhresenoldeb:-)

Y CADEIRYDD

RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT
(MARKET SQUARE / Y FARCHNAD, Y FFLINT)
(GORFOD TROI I'R CHWITH) 20-**

DATGANIAD O RESYMAU DROS ARGYMELL GWNEUD Y GORCHYMYN

Yn dilyn cais i Lywodraeth Cymru, mae Cyngor Sir y Fflint wedi llwyddo i gael cyllid i weithredu mesurau diogelwch sylweddol er mwyn mynd i'r afael â thagfeydd a lleihau symudiadau cerbydau diangen ar hyd y ffyrdd fel y rhestrwyd uchod.

Bwriedir cyflwyno Gorchymyn Gorfod Troi i'r Chwith yng nghyffordd Market Square / Y Farchnad gyda'r A548 i atal troi i'r dde peryglus ar draws ffordd ddeuol gyda thagfeydd yng nghyffiniau cyffordd brysur a reolir gan draffig.

Mae'r Cyngor Sir yn parhau â'i gyfrifoldeb i ystyried darpariaeth symudiad cyfleus a diogel cerbydau modur a thraffig arall, ac mae'r mesurau a gynigir yn ceisio sicrhau bod y perygl yn cael ei leihau tra'n sicrhau bod traffig yn teithio'n ddiogel ac yn effeithiol.

Ceir manylion y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac maent wedi eu cynnwys yn y Gorchymyn Drafft arfaethedig.


Dyddiedig 24 Ionawr 2020



Stephen O Jones,
Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NF

KEY

- Tro Chwith Gorfodol Arfaethedig
- Proposed Compulsory Left Turn



PRELIMINARY	AMENDMENTS:	DATE

DRAWN BY:
NGW

CHECKED BY:
IB

SCALE:
1: NTS @ A3

NAT. GRID REF:
325448
372259

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
License Number: 100023386, Harlow, Essex, 2018.

Steve Jones
Chief Officer (Streetscene and Transportation), County Hall, Mold, CRY 6PP
P/ff Strydylu (Cwmunwylfaethau Stryd Treffynnon), Cwmunwylfaethau, Mold 10, Y Wylidwip, CRY 6PP

Stry Flint Flintshire
COUNCIL

STREETSCENE

Market Square / Y Farchnad
Y Fflint / Flint

Tro Chwith Gorfodol Arfaethedig
Proposed Compulsory Left Turn
(Sheet 1 of 1)

DRAWING NUMBER
HT/20/MS/YF 201 C1